

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

2/2/21

Cyfrwng: Teams

Presennol: Y Cynghorwyr Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Las Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Branwen Haf

Cyhoedd: neb yn bresennol.

2188 Croesawyd pawb gan Cadeirydd a estynnodd groeso arbennig iawn i Euros Roberts i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn. Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2189 Cofnodion: Cymeradwywyd cywirdeb cyfarfod y Cyngor dros y we ar Ionawr 5ed, 2021.

2190 Materion y Clerc:

- i. Llenwi biniau halen: yn dilyn y tywydd caled diweddar, bydd Cyngor Gwynedd yn ail-lenwi bin halen Y Gyrn ac yn cael golwg ar y lleill. Roedd Arwel Lloyd Jones wedi clirio sbwriel o fin halen Maes y Pandy (un o 3 bin gwyrdd yr Eyrir Eira). Diolchwyd iddo am ei gymwynasgarwch. Cytunwyd i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn yn garedig am lenwi'r rhain gan eu bod yn brosiect peilot ar y pryd a'r bwriad oedd eu bod yn rhan o'r gwasanaeth halen. (Lleoliad: Maes y Pandy, Ysgol O M Edwards a'r Cyfleusterau Cyhoeddus).
- ii. Cofrestru tir: daeth cais gan Un Llais Cymru i gynghorau i gofrestru tir yn eu meddiant. Cytunwyd i geisio cofrestru'r tir tu ôl i wal y lloches bws a gwirio fod y mynwentydd wedi eu cynnwys. Holwyd am y tir o dan y llochesi bws (Peniel, Lôn, Tŷ'n Ddôl ac wrth Ysgol O M Edwards). Bydd angen cynlluniau o bosib.
- iii. Toriadau yn y gwasanaeth dŵr: cafwyd gwybodaeth am gynlluniau ar y gweill gyda'r falfiau; mae bwriad yn y dyfodol amhenodol i uwchraddio'r system yn Llanuwchllyn. Cytunwyd i anfon at Dŵr Cymru er mwyn ceisio gwthio hwn fyny'r agenda.
- iv. Cais cynllunio'r Garn: derbyniwyd gwybodaeth fod cais cynllunio newydd wedi cyrraedd Parc Cenedlaethol Eryri ond nad ydyw wedi cael ei brosesu hyd yn hyn.

2191 Adroddiad Cyngor Gwynedd: Dywedodd y Cyngorydd Alan Jones Evans fod y tywydd drwg wedi amlygu sawl problem. Daeth cyllid ychwanegol yn sgil y storm i wneud gwaith torri tywarchen ar ochrau'r ffordd o'r groesffordd ac i lawr ffordd Llangywer, ac o'r groesffordd i fyny at Gwm Cynllwyd. Mae cwlfer Pantceubren a oedd yn gorlifo ac yn bygwth tai Tŷ'n Ddôl bellach wedi ei glirio. Mae cwlfer Penrhiwdwrch hefyd wedi ei glirio, yn ogystal a dwy groes-ddraen – un wrth Tŷ nant a'r llall wrth

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Nant Hir – wedi eu clirio. Mae 150 medr o ffos o dan Tŷ'n Fedw wedi ei agor, a'r ffos wrth Bryn Gwyn. Disgwylir y bydd Dewi Rowlands yn asesu gor dyfiant, dyfndwr a cwlfedi ar hyn ffos Bryngwyn i lawr Stryd Ddŵr i atal gorlifo lawr i'r A494.

Mae gwaith cynnal ar ganllaw pont Llan ar y rhestr waith. Mae'n debygol bydd y gwaith ysgubo ffordd yn digwydd yn fuan iawn. Mae Adrian Williams yn barod i'r Cyngor chwalu'r wal tu nôl i loches bws Tŷ'n Ddôl ac mae angen gwneud cynllun a'i drafod gyda Pharc Cenedlaethol Eryri. Diolchwyd iddo am ei holl waith ymarferol, ac hefyd am drefnu bod y draen wrth Ysgol O M Edwards wedi ei drwsio.

2192 Mynediad at Garth Bach – Derbyniwyd ymateb gan Swyddog Llwybrau Meirionnydd a gyfeiriodd y Cyngor i gysylltu gyda Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Gwynedd (22/1/21) er mwyn sefydlu'r hawl i'r arferiad traddodiadol. Nid oes ymateb wedi dod hyd yn hyn, felly bydd y mater ar agenda'r cyfarfod nesaf.

2193 Adroddiadau Paneli:

- i. Cynllun Ardal: Amlinellodd Huw Antur gwaith yr is-bwyllgor sydd wedi penderfynu mapio tai'r ardal er mwyn cael data ar gyfer y Cynllun Ardal. Mae 335 o dai wedi eu rhannu i 9 ardal. Crëwyd bas data a gofynnwyd i'r Cynghorwyr wneud gwaith ymchwil i'w gwblhau erbyn 17/2/21. Bydd yr is bwyllgor Cynllun Ardal yn cyfarfod ar 24/2/21.
- ii. Cyfleusterau: Adroddodd y Cadeirydd fod y pwyllgor wedi cyfarfod. Dywedodd Alwyn E Jones ei fod wedi gwneud ymholiadau am brisiau drysau talu ond eu bod yn brin iawn. Disgwylir i'r gwaith cael ei orffen yn fuan. Holwyd Robin Glyn Jones am ei farn ar y gwaith glanhau; hoffai wneud asesiad manwl ar ôl gweld y safle, ac mae eisoes wedi awgrymu nifer o anghenion glanhau. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad arbenigol.

2194 Adroddiadau Cynghorwyr:

- i. Eiddew yn tyfu dros yr yw: Dywedodd y Cadeirydd fod y gwaith wedi ei wneud yn llwyr.
- ii. Y Gaiman: Mae'n parhau yn wyliau haf yn y Gaiman ac felly nid oedd dim gan Beryl Hughes Griffiths i'w adrodd.
- iii. Sylfeini: Awgrymodd Huw Antur ein bod yn rhannu'r wybodaeth a ddaw o ymchwil mapio tai'r ardal gydag aelodau Sylfeini.

2195 Materion ariannol:

- i. Y sefyllfa ariannol: Diolchwyd am yr wybodaeth e-bost gan y Swyddog Ariannol.
Derbyniadau: Grant Parc Cenedlaethol Eryri (Prosiect Lleihau Unigrwydd) £356.65

Taliadau:

Clerc a CThEM	
Teclynnau'r Prosiect Lleihau unigrwydd	£192.18
Coeden Nadolig y Gilfach Goffa	£54
Torri eiddew ar y coed ym Mynwent yr Eglwys	£150.00

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

ii Ar ôl negodi, derbyniwyd pris is boddhaol am y gwaith o dorri gwair. Cadarnhawyd hyn. Cytunwyd i adolygu prisiau'r fynwent mewn cyfarfod o'r is bwyllgor yn y dyfodol. Cymeradwywyd torri'r canghennau sydd ar draws y reilings. Mae trefniant yn bodoli i drwsio'r wal wrth y fynedfa yn gyfnewid am gadw pentwr o bridd ym mhen draw'r maes parcio.

iii Ystyriwyd ceisiadau am nawdd: Daeth ychydig o geisiadau i law, ond cytunwyd i ohirio am fis - neu fwy - o dan yr amgylchiadau er mwyn i fudiadau gael cyfle i amlinellu eu bwriadau pan ddaw'r cyfnod hwn i ben.

2196 Ceisiadau Cynllunio: Dim cais wedi dod i law.

2197 Materion lleol Cyngorwyr: Cytunwyd i anfon at y Syrjeri i fynegi gwerthfawrogiad o'r trefniadau arbennig wrth frechu yn y Ganolfan Hamdden. Gwerthfawrogwyd gwaith gwirfoddol y Rotari yno hefyd.

Codwyd y mater fod dieithriaid yn aros mewn tŷ gwyliau ac yn crwydro'r pentref. Dywedodd Cyngorydd Gwynedd y byddai'n anfon manylion ymlaen at yr Heddlu.

Mae cwrbyn wedi dod yn rhydd wrth Ysgol O M Edwards a chytunodd Alan Jones Evans i holi ymhellach.

2198 Gohebiaeth:

- i. Un Llais Cymru: Cytunodd y Clerc i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod Ardal Meirionnydd 3/2/21.
- ii. Cytunwyd i anfon llythyr parod Cyngor Tref Nefyn at Julie James AS. Cytunwyd i rannu fformat ein mapio ardal gyda chynghorau eraill, yn arbennig ym Mhenllyn.
- iii. Trafodwyd cynnwys Strategaeth Twristiaeth Parc Cenedlaethol Eryri ar dwristiaeth gynaliadwy yn ardal Yr Wyddfa.
- iv. Nodwyd derbyn gohebiaeth oddi wrth Gyngor Tref Y Bermo yn trafod treth 100% ar dai gwyliau. Diddorol oedd darllen barn yn mynegi gwerth economaidd tai haf i fusnesau a pherchnogion; daw'r ddadl hon o ardal sydd wedi Seisnigo'n llwyr. Nid oes ystyriaeth yn nogfen Cyngor Tref Y Bermo o'r mewnlifiad sy'n dod yn sgil twristiaeth ac effaith ieithyddol hynny, nac o effaith gyffredinol tai haf a thai gweigion ar fywiogrwydd cymunedau. Atgoffodd Alan Jones Evans yr aelodau am holiadur ar y cyfryngau cymdeithasol yn ceisio barn ar dreth 100% ar dai gwyliau.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth gan Bartneriaeth Penllyn nad oes disgwyl cyfraniad eleni.

2199 Partneriaeth Penllyn – adroddodd y cynrychiolwyr y derbyniwyd grant i greu gorddrws yn wal y Swyddfa er mwyn diogelwch.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: TEAMS 2/3/21 am 8.00pm

Amser gorffen: 9.05pm